

**Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru:  
Cofnodion y Cyfarfod**

WCVA, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd  
Dydd Iau 12 Ebrill 2018 – 9:30-13:00

Yn bresennol		
Rhodri	Bowen	Yr Uned Pobl a Gwaith
Scott	Clifford	Llywodraeth Cymru
Martin	Fidler Jones	RSPCA Cymru
Alex	FitzPatrick	Llywodraeth Cymru
John	Gossage	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
Uzo	Iwobi OBE	Cyngor Hil Cymru
Catrin	James	Urdd Gobaith Cymru
Nia	Jones	Llywodraeth Cymru
Sue	Leake	Llywodraeth Cymru
Thomas	Lines	Llywodraeth Cymru
Amaka	Nwagbara	Y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol
Alex	Osmond	The Wallich
Mark	Pont	Llywodraeth Cymru
Clare	Sain-ley-Berry	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Julie	Skelton	Gofalwyr Cymru
Hade	Turkmen	Chwarae Teg
Ymddiheuriadau		
Paul	Glaze	Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
Lucy	Williams	Sefydliad Bevan
Laura	Hill	Cyngor Hil Cymru
David	James	Cynghorau Siroedd Mynwy a Phowys
Glyn	Jones	Llywodraeth Cymru
Calvin	Lees	Y Sefydliad Dysgu a Gwaith

Pwyntiau gweithredu		
1	Croeso a chyflwyniadau	Sue Leake, Llywodraeth Cymru
Rhoddwyd ymddiheuriadau gan SL ar ran GJ, a oedd yn wael. Agorodd SL y cyfarfod a chroesawodd yr aelodau.		
2	Papurau: Cofnodion a chamau gweithredu, cylchlythyr Chwarterol ar Ystadegau, demograffeg a'r Cyfrifiad	Sue Leake, Llywodraeth Cymru
<p>Nodwyd y <a href="#">diweddariad ystadegau chwarterol</a> a'r <a href="#">cylchlythyr demograffeg</a>. Nododd SL fod <a href="#">amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2016</a> wedi cael eu diwygio.</p> <p><u>Cyfrifiad</u> Dosbarthodd SL y <a href="#">diweddariadau ynglŷn â chyfrifiad 2001</a>, a gyhoeddwyd o'r blaen, yn cynnwys un ar <a href="#">gyn-filwyr</a>.</p>		

	<p>Cyhoeddodd yr ONS <a href="#">ymchwil ar destun y Cyfrifiad</a> ym mis Rhagfyr, yn cynnwys gwaith ar gwestiynau ynglŷn â hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, gwirfoddoli a grwpiau ethnig.</p> <p>Ni fydd y cyfrifiad yn cynnwys cwestiynau ynglŷn ag incwm, ond mae'r ONS yn cynllunio i ddefnyddio data gweinyddol o sefydliadau fel CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau i gipio'r wybodaeth hon, ac maen nhw wedi <a href="#">cyhoeddi papurau ymchwil</a> ynglŷn â hyn.</p> <p>Mae'r ONS yn cynnal sioe deithiol 'Allbynnau ac ystadegau poblogaeth Cyfrifiad 2012' yng Nghaerdydd ar <b>17 Ebrill 2018</b>.</p> <p>Mae ymgynghoriad agored ynglŷn â'r allbynnau o Gyfrifiad 2021 yn rhedeg tan <b>23 Mai 2018</b>.</p> <p><b>Cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:</b> derbyniwyd y cofnodion heb sylwadau. Adolygwyd y camau gweithredu – roedd y cwbl wedi cael eu cwblhau.</p> <p><b>Ystadegau Etholiadol</b> Gofynnodd JG a oedd ystadegau etholiadol ar gael yn hawdd, yn arbennig felly ynglŷn â chyfraddau a bleidleisiodd a phapurau lle mae amheuaeth ynglŷn â nhw ynghyd ag ar lefel cyngor cymuned.</p>	<p><b>Cam Gweithredu:</b> SL i gylchredeg nodion atgoffa ar gyfer sioe deithiol ac ymgynghoriad Cyfrifiad ONS.</p> <p><b>Cam gweithredu:</b> SL i roi gwybod lle mae dod o hyd i wybodaeth ar ystadegau etholiadol.</p>
3	Paratoi ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) – diweddariad a thrafodaeth ar gynnwys y trydydd sector	Nia Jones a Scott Clifford, Llywodraeth Cymru
	<p>Rhoddodd NJ drosolwg byr o MALIC, sy'n anelu at gipio deunydd ac agweddau cymdeithasol amddifadedd a disgrifiodd ychydig o'u gwaith ers y mynegai MALIC diwethaf yn 2014.</p> <p>Bydd y Mynegai MALIC yn cael ei ddiweddarau yn 2019 a disgrifiwyd beth oedd y broses reoli. Mae dau gynrychiolydd o'r trydydd sector wedi cael eu dewis fel rhan o'r grŵp ymgynghorol.</p> <p>Cododd RB y mater fod rhywfaint o ddata dangosyddion addysg yn eithaf hen. Mae tîm MALIC yn ystyried cael data POLAR newydd neu ddefnyddio setiau data addysg cysylltiedig er mwyn diweddarau'r dangosyddion addysg, ond nid ydyn nhw'n siŵr a fydd hwn yn barod ar gyfer 2019.</p> <p>Bu trafodaeth ynglŷn â'r awydd gan ddefnyddwyr, mewn rhai amgylchiadau, i gael gwared â rhai dangosyddion o'r mynegai MALIC. Nid yw hyn yn hawdd oherwydd bod y dangosyddion yn cael eu cyfuno drwy ddefnyddio Dadansoddiad Ffactorau. Yn y dyfodol, efallai gall y cod gael ei gyhoeddi er mwyn helpu defnyddwyr technegol.</p> <p>Roedd awgrym y dylid ystyried cynnwys bregusrwydd newid yn yr hinsawdd. Mae adroddiad diweddar gan JRF ynglŷn â newid yn yr hinsawdd, cyfiawnder a bregusrwydd yn tynnu sylw at y mater hwn.</p> <p>Roedd yr aelodau yn gweld yr offer MALIC yn ddefnyddiol, ond buon nhw'n trafod hyfforddiant pellach ar ddefnyddio gwefan a data MALIC. Roedd yn ymddangos bod gan yr aelodau ddiddordeb i LIC gynnig hyfforddiant ar gyfer hyfforddwyr. Cynigiodd CS y WCVA i lywyddu sesiwn/arddangosfeydd dangos fideos ar eu gwefan.</p>	<p><b>Cam Gweithredu:</b> Tîm MALIC i sicrhau bod y grŵp yn derbyn dolen i ymgynghoriad MALIC pan mae'n dod yn fyw yn hydref 2018.</p>

4	Ystadegwyr ar gyfer Cymdeithas	Amaka Nwagbara, Y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol (RSS)
<p>Mae'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol am redeg menter newydd – cynllun <i>'pro bono'</i>, gyda'u haelodau CYF nhw yn cynnig gweithio ar brosiectau ystadegol ar gyfer y trydydd sector.</p> <p>Mae'r cynllun wedi cael ei anelu at elusennau llai yn y DU (gydag incymau o dan £1 miliwn) ac mae'n debyg y byddan nhw'n cynnwys sefydliadau menter cymdeithasol. Mae'r prosiectau wedi cael eu cynllunio i fod yn brosiectau peilot o hyd at 2 flynedd yn ystod oriau hamdden yr ystadegwyr.</p> <p>Bydd y prosiect yn cael ei lansio yn fuan.</p> <p>Bu trafodaeth ynglŷn ag ystadegwyr yn rhoi eu henwau ar eu gwaith, a phwysigrwydd hynny i'r sefydliad sy'n cyflogi. Yn ogystal â materion ynglŷn â dilysrwydd ac atebolrwydd i'r ystadegydd, byddai'n defnyddiol cytuno ar brotocolau cyn i'r prosiectau ddechrau.</p> <p>Ni ddylai'r sefydliadau Trydydd Sector ddisgwyl i ystadegwyr gael mynediad parod i ddata perthnasol a gallan nhw fod angen defnyddio cytundebau a pholisïau priodol ar gyfer rhannu data.</p> <p><u>Hyfforddiant</u> Bu trafodaeth ynglŷn â hyfforddiant ar gyfer y trydydd sector ar faterion ystadegol, fel cael mynediad at ddata, casglu data, storio a dadansoddi.</p> <p>Mae'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol yn gallu hyfforddi a gallai gynnig rhywbeth o bosibl pe bai angen hynny.</p> <p>Roedd awgrymiadau amgen ar gyfer hyfforddiant yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Awgrymodd JG siarad â sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant ar-lein, fel <a href="#">Future Learn</a>, ynglŷn â chyfleoedd hyfforddi ar gyfer y trydydd sector.</li> <li>• Roedd gan CJ brofiad o weithio gyda Phrifysgol Aberystwyth a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol (CCGIG) i greu fframwaith o ddata ac offer ar gyfer gwerthuso, effaith a chanlyniadau ar gyfer gwasanaethau ieuencid.</li> <li>• Gofyn i WISERD redeg seminar.</li> </ul> <p><u>Offer Mapio</u> Bu trafodaeth ynglŷn ag offer mapio a oedd yn hawdd eu defnyddio, yn arbennig felly ar gyfer data cod post. Nododd SL nad oedd offer cod post yn LIC a oedd yn cysylltu â MALIC, er ei bod yn bosibl y gellid datblygu rhywbeth da pe bai defnyddwyr yn dweud bod angen hynny.</p> <p>Roedd gan MFJ brofiad o ddefnyddio <a href="#">offeryn WISERD ar gyfer mapio</a> a gallai rannu'i brofiad os byddai'n ddefnyddiol.</p> <p>Roedd cwestiwn ynglŷn â'r offeryn 'Dangos Llwyddiant' a oedd yn arfer bod ar gael. SL i holi pam nad yw hwn ar gael mwyach.</p>		<p><b>Cam Gweithredu:</b> AN i ddosbarthu gwybodaeth ynglŷn â chynllun <i>pro-bono</i> CYF pan mae'n barod.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b> CJ i rannu gwybodaeth ynglŷn â gwaith gyda Phrifysgol Aberystwyth a CCGIG (Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol)</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b> SL i gylchredeg e-bost y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b> Cynrychiolwyr y trydydd sector i feddwl a ydyn nhw'n dymuno dweud bod angen am offeryn mapio cod post yn LIC.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b> MFG yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â meddalwedd mapio WISERD.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b> SL i holi ynglŷn ag offeryn 'Dangos Llwyddiant'.</p>

5	Ystadegau economaidd – beth sydd ar gael a beth rydych chi ei angen?	Mark Pont, Alex Fitzpatrick, Llywodraeth Cymru
<p>Bu MP ac AF yn trafod yr ystadegau economaidd sydd ar gael i Gymru, NOMIS a'r data cynyddol y gall Deddf yr Economi Ddigidol ei chaniatáu.</p> <p>Mae'r rhanbarthau daearyddol lleiaf ar gyfer data economaidd yn aml yn Awdurdodau Lleol neu ranbarthau NUTS (Dynodiad Ewropeaidd o ranbarthau yw NUTS).</p> <p>Mynegwyd awydd gan yr aelodau am fwy o ddatdrosiadau ar sail rhyw mewn data economaidd.</p> <p>Cododd JS angen am fwy o ymwybyddiaeth ar gyfer gofalwyr drwy ystadegau. Awgrymodd JG y syniad o <a href="#">is-gyfrifon</a> Cyfrifon Cenedlaethol ar gyfer gofalwyr.</p> <p>Mynegodd aelodau ddiddordeb mewn mwy o amcanestyniadau, gwybodaeth ynglŷn â ffrydiau a ffyrdd o werthfawrogi gweithgareddau unigolion (cyfalaf cymdeithasol), e.e. gofalu neu wirfoddoli.</p> <p>Crybwyllodd CS <a href="#">hwb data'r trydydd sector</a> sydd â gwybodaeth ynglŷn â gwerthfawrogi gweithgareddau gwirfoddoli.</p>		<p><b>Cam Gweithredu:</b> MP/AF i anfon mapiau o gwmpas yn egluro rhanbarthau'r NUTS.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b> SL i ddarganfod a yw MOSAIC yn defnyddio MALiC.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b> MP i basio'r syniad ynglŷn ag is-gyfrifon ar gyfer gofalwyr i ONS.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b> Aelodau i awgrymu meysydd penodol sy'n ymwneud ag amcanestyniadau neu wybodaeth ynglŷn â ffrydiau a ellid ymdrin â nhw mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.</p>
6	Llesiant Cymru: adborth o arolwg defnyddwyr	Thomas Lines, Llywodraeth Cymru
<p>Darparodd TL adborth o arolwg defnyddwyr Llesiant Cymru a oedd yn rhedeg o fis Tachwedd 2017 tan fis Chwefror 2018. Roedd canlyniadau'r arolwg yn awgrymu bod adroddiad Llesiant Cymru yn cael ei ddefnyddio, ac yn cyfleu'i negeseuon. Fodd bynnag, roedd lle i wella.</p> <p>Cododd ymatebwyr faterion ynglŷn ag argaeledd data lleol a'r iaith a ddefnyddiwyd i gyfathrebu. Roedd nifer yr ymatebwyr yn gymharol isel, o gofio'r nifer o ddefnyddwyr yr adroddiad. Roedd aelodau yn teimlo nad oedd dyluniad yr arolwg mewn gwirionedd wedi annog ymateb.</p>		<p><b>Cam Gweithredu:</b> TL i ledaenu problemau dyluniad yr arolwg drwy Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (GGD) ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.</p>
7	Argaeledd data ar Gymunedau Lleiafrifol Ethnig	Uzo Iwobi OBE, Cyngor Hil Cymru a Scott Clifford, Llywodraeth Cymru
<p>Ymdriniodd SC â'r amrywiol ffynonellau o ddata ethnigrwydd sydd ar gael, yn cynnwys "<a href="#">Adolygiad o'r Dystiolaeth yn Ymwneud ag Anghyfartaledd yng Nghymru</a>" a'r adroddiad "<a href="#">A yw Cymru'n Decach?</a>".</p> <p>Yna siaradodd UI ynglŷn â hanes Cyngor Hil Cymru a'r awydd am ddata ardaloedd penodol o amrywiaeth eang o grwpiau ethnigrwydd.</p> <p>'Eiconau Pobl Dduon yng Nghymru' yw'r thema ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon yn 2018. Mae awydd am wybodaeth ynglŷn ag unigolion du hanesyddol, er enghraifft, milwyr yn yr Ail Ryfel Byd. Mae hyn yn fwy o fater ynglŷn ag unigolion yn hytrach nag ystadegau, ond awgrymwyd <a href="#">Archifau Cymru</a> a <a href="#">Casgliad y Werin Cymru</a> fel ffynonellau.</p> <p>Bu trafodaeth ynglŷn â defnyddio'r Swyddfa Gartref i gael mynediad at wybodaeth ystadegol ar Geiswyr Lloches.</p>		<p><b>Cam Gweithredu:</b> SC i anfon dolen o'r adroddiad Adolygu Tystiolaeth ynglŷn ag Anghydraddoldeb i UI.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b> SC i gysylltu â'r Swyddfa Gartref ynglŷn â data am Geiswyr Lloches.</p>
9	Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol a dyddiad y cyfarfod nesaf.	Sue Leake, Llywodraeth Cymru
Pynciau posibl ar gyfer eitemau agenda yn y dyfodol. Yr awgrymiadau oedd:		<p><b>Cam Gweithredu:</b> CS i ddarparu enghraifft o ymchwil ynglŷn â Chostau Iechyd</p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anghydraddoldeb</li> <li>• Asesiad o'r Amgylchedd Naturiol Ar-lein (NEVO)</li> <li>• Metrigau a Chostau Iechyd Meddwl</li> <li>• Gwerthuso gwirfoddoli/gofalwyr yn gadarnhaol</li> <li>• GPDR – yr effeithiau y gall gael</li> <li>• Gwerthuso/Cyfalaf Cymdeithasol fel pwnc cyffredinol</li> </ul>	Meddwl  <b>Cam Gweithredu:</b> CJ i ddarparu enghreifftiau o werthuso gwerth gwirfoddoli/gofalwyr.	
9	Unrhyw fater arall	Sue Leake, Llywodraeth Cymru
Ni chodwyd unrhyw fater o bwys.		

<b>Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru</b> 12 Ebrill 2018 Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu		
1	Cylchredeg nodion atgoffa ynglŷn â'r sioe deithiol ac ymgynghoriad Cyfrifiad yr ONS	Sue Leake
2	Gofyn am wybodaeth ynglŷn ag ystadegau etholiadol	Sue Leake
3	Darparu doler ar gyfer aelodau i ymgynghoriad MALIC pan ddaw yn fyw yn yr hydref	Tîm MALIC
4	Dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â'r cynllun <i>pro-bono</i> pan fydd yn barod	Amaka Nwagbara
5	Rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r gwaith gyda Phrifysgol Aberystwyth a CCGIG	Catrin James
6	Cylchredeg e-bost y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol	Sue Leake
7	Cynrychiolwyr y trydydd sector i feddwl a ydyn nhw'n dymuno dweud eu bod angen offeryn mapio cod post yn LIC	Trydydd Sector
8	Rhannu gwybodaeth ynglŷn â meddalwedd mapio WISERD	Martin Fidler Jones
9	Holi ynglŷn â'r offeryn 'Dangos Llwyddiant'	Sue Leake
10	Anfon mapiau yn egluro rhanbarthau'r NUTS	Mark Pont, Alex Fitzpatrick
11	Darganfod a yw MOSAIC yn defnyddio MALIC	Sue Leake
12	Pasio'r syniad ynglŷn ag is-gyfrifon ar gyfer gofalwyr i ONS	Mark Pont
13	Awgrymu meysydd penodol yn ymwneud ag amcanestyniadau neu wybodaeth ynglŷn â ffrydiau a ellid ymdrin â nhw mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.	Pawb
14	Lledaenu problemau dyluniad yr arolwg o fewn GGD ar gyfer ymgynghoriad yn y dyfodol	Thomas Lines

15	Anfon dolen ynglŷn â'r adroddiad Adolygu Tystiolaeth ar Anghydraddoldeb at UI	Scott Clifford
16	Cysylltu â'r Swyddfa Gartref ynglŷn â data ar Geiswyr Lloches	Scott Clifford
17	Darparu enghraifft o ymchwil ynglŷn â Chostau Iechyd Meddwl	Clare Sain-ley-Berry
18	Darparu enghreifftiau o werthuso gwerth gwirfoddoli/gofalwyr	Catrin James